# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 2

ADOLYGIADAU ARDAL

*Cymunedau*

### 25 Adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor

(1) Caiff prif gyngor gynnal adolygiad o un neu ragor o'r cymunedau yn ei ardal—

- (a) o'i wirfodd, neu
- (b) ar gais—
  - (i) cyngor cymuned yn ei ardal, neu
  - (ii) cyfarfod cymunedol yn ei ardal.

(2) Ond rhaid i brif gyngor beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais cyngor cymuned neu gyfarfod cymunedol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

(3) Y newidiadau y caiff prif gyngor eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—

- (a) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
- (b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol—
  - (i) y gymuned neu'r cymunedau sydd o dan adolygiad,
  - (ii) y brif ardal,

y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b)(ii), mae adran 30 yn gymwys i brif gyngor fel y mae'n gymwys i'r Comisiwn.

(5) Caiff prif gyngor ymrwymo mewn cytundeb gyda'r Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn (o dan adran 26) arfer swyddogaethau'r cyngor o dan yr adran hon.

(6) Caiff y cytundeb fod ar y telerau a'r amodau hynny y mae'r prif gyngor a'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.

**26 Adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn**

(1) Caiff y Comisiwn, yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), gynnal adolygiad o un neu ragor o gymunedau mewn prif ardal.

(2) Yr amgylchiadau yw—
  (a) pan fo'r Comisiwn wedi cytuno i arfer swyddogaethau prif gyngor o dan adran 25(5),
  (b) pan fo prif gyngor wedi cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn o dan adran 36(5) ac —
    (i) argymhelliad y cyngor yw na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned,
    (ii) nad yw'r cyngor a'r Comisiwn yn gallu cytuno ar yr addasiadau hynny i'r argymhellion y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn angenrheidiol iddo eu gweithredu,
    (iii) nad yw'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i weithredu unrhyw un neu ragor o argymhellion y cyngor, neu
    (iv) bod y Comisiwn o'r farn na chafodd yr adolygiad ei gynnal gan y cyngor yn unol â'r Rhan hon neu fel arall ei fod yn ddiffygiol mewn modd sylweddol,
  (c) pan na fo prif gyngor wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o un neu ragor o'i gymunedau.

(3) Y newidiadau y caiff Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—
  (a) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol, a
  (b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol—
    (i) y gymuned neu'r cymunedau sydd dan adolygiad,
    (ii) y brif ardal,

  y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(4) Pan fo'r Comisiwn yn cynnal adolygiad yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2)(b)(iv) neu (c), caiff adennill y gost o wneud hynny oddi wrth y prif gyngor.

(5) Os bydd anghytundeb rhwng y Comisiwn a'r prif gyngor ynghylch y swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan is-adran (4), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r swm hwnnw.

(6) O ran unrhyw swm sy'n daladwy i'r Comisiwn o dan yr adran hon, mae modd ei adennill fel dyled sy'n ddyledus i'r Comisiwn.